

Annwyl Randdeiliaid

**Cynnig i Sefydlu Ysgol 3-18 Rhymni (yn ymgorffori Ysgolion Cynradd Abertyswg/Pontlotyn ac Ysgol Gyfun Rhymni)**

Mae'r broses ymgynghorol statudol lawn ar gynnig y Cyngor i sefydlu Ysgol 3-18 Rhymni (yn ymgorffori Ysgolion Cynradd Abertyswg/Pontlotyn ac Ysgol Gyfun Rhymni) bellach wedi dod i ben.

Pasiwyd y cynnig drwy'r cyfnod hysbysu statudol heb wrthwynebiad, ac felly gwnaethpwyd penderfyniad terfynol ar y cynnig gan yr Aelod Cabinet dros Addysg a Chyrhaeddiad ar 5 Gorffennaf 2017.

Rwy'n falch o gadarnhau mai'r penderfyniad terfynol yw i fwrw ymlaen â'r cynnig, a bydd Ysgol 3-18 Rhymni yn agor ym mis Ionawr 2018.

Yn gywir

Keri Cole  
Prif Swyddog Addysg  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili  
Tŷ Penallta  
Parc Tredomen  
Ystrad Mynach, CF82 7PG

Dyddiedig 24 Gorffennaf 2017